# EDWARDS, EDWARD (1726? - 1783?), clerigwr ac ysgolhaig

**Enw:** Edward Edwards
**Dyddiad geni:** 1726?
**Dyddiad marw:** 1783?
**Rhiant:** Lewis Edwards
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac ysgolhaig
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Talgarth, Tywyn, Meirionnydd, yn fab i Lewis Edwards, ' yswain.' Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, fis Mai 1743, 'yn 17 oed'; graddiodd yn Ionawr 1746/7 (B.D. 1756, D.D. 1760). Etholwyd ef yn gymrawd yn 1747, a bu'n gymrawd hyd 1783, gan ddal hefyd (o 1770 beth bynnag) reithoraeth Bessels-leigh gerllaw Rhydychen; o 1762 hyd 1783 yr oedd yn is-brifathro'r coleg. Ymddiswyddodd yn 1783 i gymryd rheithoraeth Aston Clinton, Swydd Buckingham; ac yn ôl llythyr gan Samuel Johnson yr oedd wedi marw erbyn 1784. Yr oedd Johnson ac yntau'n gyfeillion ac yn llythyru â'i gilydd, a bu Johnson yn aros gydag ef yng Ngholeg Iesu yn 1782. 'My convivial friend' yw disgrifiad Johnson ohono, a chadarnheir yr awgrym gan Richard Morris pan edrydd ef hanes derbyn Edwards yn aelod o'r Cymmrodorion yn 1763. Gwyddai ryw gymaint am bethau Cymraeg, ond Groeg oedd ei faes. Bu'n hir arfaethu cyhoeddi argraffiad o *Memorabilia* Xenophon. Cyhoeddodd ym 1773 draethawd ar y foeseg Socrataidd a adlewyrchir yn y llyfr hwnnw; a chyn ei farw yr oedd wedi argraffu'r testun Groeg a chyfieithiad Lladin ohono, ond wedi ei farw y cwplawyd y gwaith (1785) gan ei gyfaill a'i gyd-Gymmrodor Henry Owen. Bu farw 2 Medi 1783.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Foster, *Alumni Oxonienses*

Hardy, *Jesus College* (1899), 177-8

*The Life of Samuel Johnson, LL. D comprehending an account of his studies and numerous works, in chronological order, a series of his epistolary correspondence and conversations with many eminent persons, and various original pieces of his composition, never before published the whole exhibiting a view of literature and literary men in Great Britain, for near half a century, during which he flourished in three volumes* (Dulyn 1792), arg. Birkbeck Hill, iii, 367, 529

*The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765* (1907–9), ii, 531, 565


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5342738


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu